# Dogfennau Ategol - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mawrth 2023

Amser: 09.30 - 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

# Hybrid - Papurau i'w nodi: Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**5.1 Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru**

(Tudalennau 1 - 22)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan Undeb Rygbi Cymru ynghylch yr honiadau sy'n gysylltiedig ag Undeb Rygbi Cymru - 10 Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)
- Llythyr at Chwaraeon Cymru ynghylch yr honiadau sy'n gysylltiedig ag Undeb Rygbi Cymru - 17 Chwefror 2023
- Ymateb gan Chwaraeon Cymru at y Pwyllgor ynghylch yr honiadau sy'n gysylltiedig ag Undeb Rygbi Cymru - 2 Mawrth 2023
    - Atodiad 1: Agenda yr Uwchgynhadledd Chwaraeon
    - Atodiad 2: Mynychwyr yr Uwchgynhadledd Chwaraeon (Saesneg yn unig)
- Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon ynghylch yr honiadau sy'n gysylltiedig ag Undeb Rygbi Cymru - 3 Mawrth 2023
    - Atodiad 1: Gohebiaeth gan Tonia Antoniazzi, Aelod o Sendd y DU, at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, 9 Mai 2022 (Saesneg yn unig)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Atodiad 2: Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Tonia Antoniazzi, Aelod o Sendd y DU - 24 Mai 2022 (Saesneg yn unig)

Delyth Jewell MS, Chair
Senedd Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

10 February 2023

Dear Delyth,

Thank you again for the opportunity to present to the Senedd Committee recently. Whilst this period has been extremely challenging for us, I hope you can appreciate that our intention is to accept and learn from the challenges we face, and to change the way that we work day to day, as well as renewing our governance, community and operational structures.

The Chair and I have been humbled by what we have heard, and the task we know we have ahead. In tackling some of the issues raised, we have received a great deal of challenge and advice from the Welsh Government and Sport Wales and you will know that progress has been made in appointing an independent Chair and outlining the terms of references of the external Taskforce.

We hope that further information can be published shortly and will keep the Committee up to date with details. We have also committed, of course, to return to the Committee to provide an update on progress in the interim and to provide specific information with regard to women's rugby and employment matters, which we include below.

I look forward to having more time to outline steps we have taken to invest in and develop rugby for women and girls across Wales over the last few years, and the progress made within the organisation to build a more inclusive and supportive staff environment.

Westgate Street, Cardiff, CF10 1NS Tel: 029 2082 2000 www.wru.wales
Heol y Borth, Caerdydd, CF10 1NS Ffôn: 029 2082 2000 www.wru.cymru

The Welsh Rugby Union Limited is a company registered in England and Wales. Company No: 3419514.
Millennium Stadium plc is a company registered in England and Wales. Company No: 3176906 Millennium Stadium plc owns and operates Principality Stadium.

**Women's Rugby**

We made commitments to openness and transparency at the Committee, and I include as an attachment the recommendations made by the Women's Performance Mid-Term Review.

**Women's Performance Mid-Term Review**

In 2021 we commissioned an independent review to consider what action was required to improve the provision for elite female players and address problems that had arisen within our international structures.
The review made very challenging reading for us as the WRU and described a committed squad of high-performance athletes frustrated by the support they were receiving, with failures in strategic and operational management, and not enough care, resource and encouragement for our international players to perform at their best.

The review report also made clear that we as a union had not ensured that our female players felt fully welcomed, valued and an equal part of our game.
The recognition of these serious failures as an organisation led to rapid changes, and of the 40 recommendations that were made as part of the review, most have been implemented in full, with further action required in other areas.
We have been heartened by the immediate positive outcomes, with the team achieving third place in the 2022 6 Nations tournament, but there is more to be done to build a professional, well-supported high-performance environment.
Whilst changes to management, investment in resources and new professional contracts have led to positive change, we recognise that considerably more needs to be done to ensure that women players at all levels receive the support they need to flourish and that we need to continue to change the way our organisation works day to day to be more inclusive.
I can only apologise again for the challenging environment and the personal impact it has had on the women involved.

You may also know that we have recently implemented changes in the community game following a review across all levels of the women's game and a widespread consultation process involving more than 1700 players, coaches, parents, stakeholders and collaborated with experts in varying fields including medical, physiological sport development, and other sectors.

The review looked at a range of areas to further support the growth of the female game in Wales and ensure that there is equitable and sustainable rugby provision for women and girls.


The Welsh Rugby Union Limited is a company registered in England and Wales. Company No: 3419514.
Millennium Stadium plc is a company registered in England and Wales. Company No: 3176906 Millennium Stadium plc owns and operates Principality Stadium.

The review covered broad aspects of the game, including season and competition structure, formats of the game and measures that could be put in place to help Welsh rugby structures to adapt to improve the female player pathway and support player development. It also covered issues such as training schedules, facilities and changing rooms, representation, attitudes and support from within the wider rugby community.

Key recommendations of the review were that the playing pathways girls and women were adapted and progressed, with changes to competition structures and further development of the community-based Female Hubs and further changes to the senior domestic competition.

We are delighted that the women's game in Wales has recently grown significantly, with an increase of more than 50% in regular female players since community rugby restarted in 2020. There are now 37 Female Hubs all over Wales, with 5000 women and girls registered, and with teams from under 7s to under 18s and senior women.

We have invested in the women and girls' game at all levels and have reviewed our playing opportunities and competitive pathways to adapt to the needs of our young people as we develop, grow, and protect the game in Wales. We have grown the number of Female Hubs, reviewed the playing framework for girls and our Hub Officers provided a diverse range of competitions, events and festivals for girls across Wales.

Our objective is to engage 10,000 women and girls in regular rugby activities by 2026, while enhancing the opportunities for girls within the pathway across all ages. I look forward to outlining in more detail our plans for growing the number of women and girls across rugby and building a union that we can all be proud of.

**Employment and Staff Welfare**

You also asked us to specifically respond with regard to employment settlements and grievances in relation to the allegations of poor behaviours described in the recent programme. The Committee are right to highlight that we should not wait until the Taskforce completes its work before we make changes, specifically to ensure that our staff feel safe, supported and valued, and that we tackle incidents and behaviours in a robust and consistent matter.

I have previously written to you to outline how we have invested in new procedures and enhanced and restructured our human resources team, with a particular focus on Equality, Diversity and Inclusion. The HR Team has sought external expertise to provide advice and support in reviewing all of our people policies in 2022, which includes our EDI, whistleblowing and grievance policies, to ensure these are as robust as possible. This period of challenge has made us doubly committed to develop an every day working culture that is professional, inclusive and welcoming.

Westgate Street, Cardiff, CF10 1NS Tel: 029 2082 2000 www.wru.wales
Heol y Borth, Caerdydd, CF10 1NS Ffôn: 029 2082 2000 www.wru.cymru

The Welsh Rugby Union Limited is a company registered in England and Wales. Company No: 3419514.
Millennium Stadium plc is a company registered in England and Wales. Company No: 3176906 Millennium Stadium plc owns and operates Principality Stadium.

The WRU employs some 224 staff directly, whilst there are 430 in the wider WRU Group, which includes Principality Stadium staff.

Whilst the Committee asked us about non-disclosure agreements specifically, we will often use these as part of commercial agreements. Settlement or compromise agreements are used from time to time when ending employment for a variety of reasons. In providing the relevant information and as requested by the Committee we have considered settlement agreements in relation to allegations of sexism, racism and homophobia.

The WRU Group has entered into a settlement agreement on four occasions in the last five years in relation to a grievance that had been raised in relation to these issues. Two or three of the four settlement agreements relate to the issues that might come under the remit of the Taskforce review. I am sure you will understand that for a number of reasons, I cannot provide any further detail of the specific cases but we would of course be happy for those who have entered into settlement agreements to participate in the Taskforce review if they so wished.

The WRU Group has been in receipt of six grievances in the last five years that relate to either sexist, racist or homophobic behaviour. With regard to procedures that have been concluded, three members of staff have been subject to disciplinary action following allegations of sexist, racist or homophobic behaviour.

Changing culture takes time, but we are determined to do it, and in addition to the work of the Taskforce, we are looking again at immediate things that we can do and have done to support our staff.

Please do let me know if you require any further information. I can confirm that we have no amendments to make with regard to the published transcript of the Committee proceedings.

I will copy this letter to the Deputy Minister for her information, and I look forward to continuing our dialogue.

Yours sincerely,

Nigel Walker

**Interim Chief Executive Officer**

Westgate Street, Cardiff, CF10 1NS Tel: 029 2082 2000 www.wru.wales
Heol y Borth, Caerdydd, CF10 1NS Ffôn: 029 2082 2000 www.wru.cymru



The Welsh Rugby Union Limited is a company registered in England and Wales. Company No: 3419514.
Millennium Stadium plc is a company registered in England and Wales. Company No: 3176906 Millennium Stadium plc owns and operates Principality Stadium.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**–**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Brian Davies
Prif Weithredwr Dros Dro
Chwaraeon Cymru

17 Chwefror 2023

Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru

Annwyl Tanni a Brian

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2023. Mae'r Pwyllgor, fel y mae bob tro, yn ddiolchgar i chi am eich amser i drafod y mater pwysig hwn. Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod. Maent wedi'u hamlinellu isod.

Uwchgynhadledd ar system chwaraeon cynhwysol

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi bod Chwaraeon Cymru wedi cynnal uwchgynhadledd ym mis Rhagfyr 2022 ar system chwaraeon gynhwysol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi amlinelliad o'r sefydliadau a ddaeth i'r uwchgynhadledd honno, yn ogystal â'r agenda ar gyfer yr uwchgynhadledd.

Honiadau o ymddygiad amhriodol mewn chwaraeon eraill

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael amlinelliad o nifer y cwynion neu adroddiadau yn ymwneud â honiadau o gasineb at fenywod, rhywiaeth, hiliaeth a homoffobia a ddaeth i law Chwaraeon Cymru yn ymwneud â chyrff llywodraethu cenedlaethol eraill yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiadau a wnaed gan Chwaraeon Cymru o unrhyw batrymau i'r honiadau hyn, ac unrhyw gamau a gymerwyd gan Chwaraeon Cymru.

Pwerau ymyrryd

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd yn helaeth rôl a grym Chwaraeon Cymru i ymyrryd mewn achosion o'r fath. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech amlinellu o dan ba amgylchiadau y byddai Chwaraeon Cymru yn cyfyngu ar y cyllid y mae'n ei ddarparu i gyrff llywodraethu cenedlaethol. Pa amodau sydd ynghlwm wrth y cyllid y mae Chwaraeon Cymru yn ei roi i gyrff llywodraethu cenedlaethol?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb erbyn 12.00 ddydd Gwener 3 Mawrth 2023.

Yn gywir

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Sport Wales National Centre
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

Acting CEO | Prif Weithredwr Dros Dro: Brian Davies
Chair | Cadeirydd: Baroness, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL

Delyth Jewell AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 17[eg] Chwefror, yn ogystal â'r cyfle yn gynharach yn ystod yr wythnos honno i Chwaraeon Cymru ymddangos gerbron y pwyllgor i drafod y materion pwysig hyn. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i allu darparu ymateb i gwestiynau dilynol y pwyllgor, yn ogystal ag ailddatgan rhai pwyntiau a wnaed yn ein tystiolaeth gychwynnol.

I ailadrodd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddarparwyd gennym yn flaenorol, nid yw Chwaraeon Cymru yn rheoleiddiwr; fodd bynnag, mae gennym drefniadau monitro cadarn. Mae'r rhain yn cynnwys y fframwaith gallu, y protocolau hunanasesu, a'r gallu i archwilio'n ariannol a sefydlu adolygiadau llywodraethu. Rydym hefyd yn monitro darpariaeth ein rhwydweithiau partner yn erbyn y gofynion cyllido fel arfer parhaus drwy reolwr perthnasoedd pob partner. Pan fydd pryderon yn cael eu codi, efallai y byddwn yn gweithredu fel cyfryngwr, gan gyfeirio unigolion at y cysylltiadau perthnasol i'w datrys, neu gynnig hwyluso datrysiadau drwy gyfryngu.

O ran y cwestiynau penodol a godwyd yn eich llythyr, rwy'n hapus i atodi rhestr o'r sefydliadau a fynychodd yr Uwchgynhadledd Chwaraeon y cyfeiriwyd ati yn y pwyllgor. Byddwn yn gofyn i'r pwyllgor nodi y byddai sefydliadau, mewn llawer o achosion, wedi bod â chynrychiolwyr lluosog yn bresennol. Rwyf hefyd yn hapus i fod wedi atodi agenda trosolwg yr uwchgynhadledd er gwybodaeth i'r pwyllgor.

Mewn perthynas â cheisiadau am unrhyw gwynion rydym wedi'u derbyn yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae Chwaraeon Cymru wedi derbyn dwy gŵyn ffurfiol. Fel y cadarnhawyd yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor, nid yw Chwaraeon Cymru yn rheoleiddiwr ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) ac nid oes ganddo bwerau rheoleiddiol. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, gwnaethom gynnig cyfryngu fel ffordd o gefnogi cyfaddawd a chymodi ar y materion a oedd wedi'u codi.

O ystyried nad rôl Chwaraeon Cymru yw gweithredu fel rheoleiddiwr, mae'n bosibl, ac yn wir yn debygol, bod materion eraill wedi codi yn y sector chwaraeon, ond na fyddai unigolion neu grwpiau'n dod â'r rhain yn uniongyrchol gerbron Chwaraeon Cymru o ystyried ein rôl gyfyngedig wrth ymateb i gwynion uniongyrchol. Byddai llwybrau eraill yn fwy priodol ar gyfer y cwynion unigol penodol.

INVESTORS IN PEOPLE We invest in people Standard Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH AWARDING FUNDS FROM THE NATIONAL LOTTERY®
Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru

Rydym yn gweithio gyda phob un o'n rhwydweithiau partner ar eu llywodraethu i gefnogi'r ffocws ar gydraddoldeb o fewn sefydliad, ac fel y nodwyd hefyd yn ein hymddangosiad gerbron y pwyllgor, byddwn yn ymdrin ag unrhyw faterion yr ydym yn ymwybodol ohonynt fesul achos.

Dylid nodi hefyd, er nad ydynt yn gwynion ffurfiol, bod Chwaraeon Cymru yn cael ei dagio o bryd i'w gilydd mewn cwynion unigol ar gyfryngau cymdeithasol a gyfeirir at Gyrff Rheoli Cenedlaethol a sefydliadau chwaraeon eraill. Gan amlaf, nid oes angen unrhyw waith dilynol ar y rhain ond o bryd i'w gilydd byddwn yn gwneud y personél perthnasol yn ymwybodol o'r materion sydd wedi'u codi.

Yn ogystal â'r uchod, gallaf hefyd gadarnhau ein bod yn gweithio'n rhagweithiol ar faterion cydraddoldeb yn ein rôl ehangach yn arwain y sector. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Adolygiad Mynd i'r Afael â Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol mewn Chwaraeon (TRARIIS) y Cynghorau Cartref, a'r argymhellion a'r camau gweithredu dilynol a ddeilliodd o hyn. Mae'r manylion am hynny i'w gweld yma https://www.uksport.gov.uk/news/2021/06/23/tackling-racism-and-racial-inequality-in-sport-review

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys y dull cydweithredol o ddatblygu Canllawiau Cyngor Chwaraeon y DU ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol mewn Chwaraeon Domestig, neu ein partneriaeth barhaus â'r Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar Ferched a Chwaraeon.

Yn olaf, byddai'r amgylchiadau pan na fyddai Chwaraeon Cymru yn cyllido CRhC yn cynnwys (i) twyll clir ac amlwg; (ii) camddefnyddio arian cyhoeddus; (iii) ansolfedd a (iv) methiant dro ar ôl tro i fodloni gofynion / amodau cyllido. Bu achosion lle mae cyllid wedi'i atal yn y gorffennol, yn wir rhoddwyd rhybudd i URC y byddai angen gwelliannau yn y dyfodol mewn perthynas â llywodraethu er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus ar gael. Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod CRhC yn y rhan fwyaf o achosion yn dibynnu ar arian cyhoeddus ac mae wedi ymrwymo i helpu partneriaid i wella. Yn unol â'n tystiolaeth, byddem yn ailadrodd ein bod hefyd yn ymwybodol o'r angen am weithio gyda'n rhwydweithiau partner a chefnogi eu gwelliannau mewn ffordd sy'n helpu'r gamp ehangach i lwyddo. Gall hyn olygu, yn hytrach na thynnu arian yn ôl, y gall Chwaraeon Cymru ddiwygio'r ffordd rydym yn cefnogi partneriaid yn ariannol e.e. taliad misol ar dderbyn gwariant neu daliadau chwarterol gydag amodau grant penodol wedi'u hychwanegu i adlewyrchu pryderon sy'n dod i'r amlwg.

Byddai'r amodau a bennir ar gyfer partneriaid yn berthnasol yn gyffredinol i'r disgwyliadau uchod o ran defnyddio arian cyhoeddus. Mae pob grant hefyd yn amodol ar delerau ac amodau grant Chwaraeon Cymru, sydd ar gael yma. Telerau ac Amodau Grant Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, bydd amodau pwrpasol hefyd sy'n benodol i bartneriaid unigol yn unol â maint, cwmpas a chyrhaeddiad eu camp a lle gall Chwaraeon Cymru a'r CRhC dan sylw gydweithio orau i wneud gwahaniaeth.

Yn gywir,

Brian Davies
Prif Weithredwr Dros Dro
Chwaraeon Cymru

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Chwaraeon Cymru

INVESTORS IN PEOPLE We invest in people Standard Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH AWARDING FUNDS FROM THE NATIONAL LOTTERY®
Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru

# 8 Rhagfyr

## Cipolwg ar y diwrnod

**Bore:**

**9.30am – Y gwesteion i gyrraedd**

**10.15am – Anerchiad Croeso - Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog**

**10.35am – Trafodaeth Panel** gyda Manon Rees O'Brien (Actif North Wales), Alastair Dixon (Canŵio Cymru), Claire Lane (Streetgames), Owen Lewis (Chwaraeon Cymru), Jac Chapman (Llysgennad Ifanc).

Bydd y sesiwn yma'n gyfle i feddwl pwy allai fod yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion y cyhoedd, pwy allai fod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r angen hwnnw, a phwy allai fod yn y sefyllfa orau i hwyluso'r ddarpariaeth. Bydd y panel yn edrych ar y cwestiwn ynghylch y meddylfryd a'r syniadau presennol o ran mai unrhyw un partner sydd yn y sefyllfa orau i wneud yr holl bethau hynny. Bydd y sesiwn yma'n ystyried sut gallai'r sector gydweithio'n well â gwahanol sefydliadau sy'n chwarae'r rôl y maent yn y sefyllfa orau i'w chwarae, a sut gallai canolbwyntio ar wneud llai o bethau'n well, er mwyn gweithio ar y cyd i gyfrannu at system chwaraeon gynhwysol.

12.05pm - Gweithdai – Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**Cinio:** 12.40-1.30pm

**Prynhawn:**

**1.40pm – Prif Anerchiad – Per Tøiern, Chwaraeon Norwy**

Bydd y prif anerchiad yma'n rhoi cyfle i ddeall sut mae chwaraeon yn Norwy wedi datblygu a sut mae pawb sy'n cymryd rhan yn cyfrannu at y Weledigaeth o Lawenydd mewn Chwaraeon i Bawb.

**2.50pm – 2il weithdy** Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**3.35pm – 3ydd gweithdy** Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**4.15 – Sylwadau i gloi – Cadeirydd Chwaraeon Cymru, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson**

Dyma’r gweithdai:

1) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i sbarduno newid?**

Lisa O’Keefe, Ysgrifennydd Cyffredinol IWG ar gyfer Merched mewn Chwaraeon

Bydd y gweithdy yma’n cynnwys cyflwyniad byr a sesiwn holi ac ateb o’r llawr gydag Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar gyfer Merched mewn Chwaraeon. Bydd y sesiwn yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer cyfnod cynnal o 4 blynedd y grŵp yn y DU fel catalydd ar gyfer trafodaeth sy'n edrych ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i ysgogi newid yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Beth yw rôl sefydliadau ac unigolion yn y system a ble gallant gael yr effaith fwyaf? Sut gall sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol arwain yr achos dros newid.

2) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddeall angen?**

Jo Goodwin, Pennaeth Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr - CDPS
Justin Coleman, Lefelu'r Cae Chwarae

Nod y gweithdy hwn yw helpu’r gwesteion i edrych ar sut i greu System Chwaraeon Gynhwysol drwy ddeall anghenion pobl. Pa mor dda ydyn ni am ddeall angen? Beth sydd angen i ni ei wneud i ymgysylltu'n dda? Sut ydyn ni’n deall angen pobl ac yn ymateb iddo? Yn bwysicaf oll, pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddeall angen? Bydd y gweithdy yma’n rhannu enghreifftiau o astudiaethau achos er mwyn helpu i roi ffocws i ateb rhai o’r cwestiynau hyn a rhannu enghreifftiau o ble mae rhai sefydliadau yn rhoi’r defnyddiwr wrth galon eu dull o weithredu.

3) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni yn erbyn angen, ar ôl ei ddeall?**

Chris Davies, Parkrun
Andy Newman, Dragon Athletic
Gary Lewis, Yr Urdd

Ei nod yw helpu’r gwesteion i edrych ar sut i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd o fewn System Chwaraeon Gynhwysol, drwy ddeall faint o gymryd rhan mewn chwaraeon sydd yn yr hinsawdd bresennol.

Sut mae cynigion amgen o fewn chwaraeon wedi gallu ateb y galw, a darparu ar gyfer anghenion heb eu diwallu, neu eu haddasu yn seiliedig ar ddeall anghenion pobl? Bydd y drafodaeth bord gron hon yn edrych ar sut gall dulliau amgen o ymgysylltu â chyfranogwyr feithrin partneriaethau pwysig. Bydd y pynciau i’w trafod yn cynnwys edrych ar gyfleoedd aelodaeth, tueddiadau defnyddwyr, darparwyr chwaraeon newydd a sut maent yn mynd ati i ddefnyddio gwybodaeth a sganio’r gorwel i ddiwallu anghenion pobl a chreu cynigion cyffrous y mae galw amdanynt.

| Organisation Name |
|---|
| |
| Sported |
| Cricket Wales |
| Women's Equality Network Wales |
| Actif North Wales |
| Wales Netball |
| Sport Wales |
| The Outdoor Partnership |
| Wales Council for Voluntary Action |
| Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales |
| Boys' & Girls' Clubs of Wales |
| SportWorks |
| Wales Golf |
| Sport Wales |
| Senedd Cymru |
| Swansea City Foundation |
| FAW Youth Council |
| Street Football Wales |
| Llamau |
| StreetGames |
| Welsh Sports Association |
| Welsh Cycling |
| Cardiff Met University |
| Welsh Government |
| Tennis Wales |
| Caerphilly County Borough Council |
| Swim Wales |
| Welsh Institute of Performance Science |
| Welsh Rowing |
| Crowdfunder UK |
| RYA Cymru Wales |
| Office Of The Future Generations Commissioner For Wales |
| Pembrokeshire Leisure |
| Cardiff City FC Community Foundation |
| Disability Sport Wales |
| MonLife, MCC |
| Youth Sport Trust |
| FAW |
| Mental Health Foundation |
| Cymru Football Foundation |
| Ospreys Rugby |
| Show Racism the Red Card Wales |
| Cardiff And Vale Health Board |
| Welsh Orienteering Association |
| Active Merthyr |
| Welsh Boxing |
| Badminton Wales |
| Welsh Triathlon |
| ColegauCymru |

| |
|---|
| Ceredigion County Council |
| BowlsWales |
| Newport Live |
| Cardiff City FC Foundation |
| Aneurin Leisure Trust |
| Swansea Bay Orienteering Club & Welsh Orienteering Association |
| HM Prison service |
| Swansea Council |
| Commonwealth Games Wales |
| Snowsport Wales |
| Welsh Athletics |
| Disability Sport Wales |
| Royal Welsh College of Music and Drama |
| Squash Wales |
| Black Swimming Association |
| Swansea University |
| Welsh Institute of Physical Activit, Health and Sport |
| Betsi Cadwaladr University Health Board |
| Carmarthenshire County Council |
| Canoe Wales |
| Basketball Wales |
| International Working Group on Women And Sport |
| The Ability People |
| Welsh Gymnastics |
| Table Tennis Wales |
| AKD Solutions |
| Dragon Athletic Gymnasium |
| Parkrun |
| Urdd Gobaith Cymru |
| UDOIT Dance Foundation |

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/0064/23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

3 Mawrth 2023

Annwyl Delyth,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth ynghylch Undeb Rygbi Cymru (URC). Yn eich llythyr, rydych yn gofyn sawl cwestiwn dilynol.

**A allech chi egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â Chwaraeon Cymru i godi pryderon a mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder mewn corff llywodraethu cenedlaethol sy'n destun honiadau gwenwynig o'r fath?**

Fel yn achos Cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru yn fy mhortffolio, caiff y berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ei rheoli yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Ddogfen Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru, a chyfarfodydd Monitro Chwarterol ffurfiol rhwng fy swyddogion a Thîm Gweithredol Chwaraeon Cymru. Cynhelir trafodaethau anffurfiol mwy rheolaidd yn wythnosol.

Anaml y mae'r materion o'r natur a godwyd yn rhaglen BBC Wales Investigates, os byth, yn cael eu codi'n uniongyrchol â mi neu fy swyddogion, gan eu bod fel arfer yn cael eu datrys rhwng y Corff Llywodraethu Cenedlaethol, a'r achwynwyr eu hunain. I fod yn glir, ni chododd Chwaraeon Cymru unrhyw bryderon yn ymwneud ag URC na'r materion a godwyd yn uniongyrchol yn ymchwiliad y BBC gyda naill ai fi neu fy swyddogion.

Os bydd angen uwchgyfeirio mater, yna byddaf i, neu fy swyddogion yn ei godi'n uniongyrchol gyda Chwaraeon Cymru a'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol eu hunain, lle bo hynny'n briodol, gan ddibynnu ar natur y materion a godwyd. Dyma'r camau gweithredu rwyf wedi eu cymryd ers rhaglen BBC Wales Investigates ar 23 Ionawr wrth gynnull grŵp a gweithio ochr yn ochr ag URC a Chwaraeon Cymru er mwyn dechrau'r ymchwiliad allanol sydd nawr yn cael ei gadeirio gan y Fonesig Anne Rafferty.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O'r materion a amlygwyd yn rhaglen ddogfen y BBC, roeddwn yn ymwybodol o honiadau'n ymwneud â Ms Wathan (er nad wrth ei enw a heb unrhyw fanylion) a oedd yn destun tribiwnlys cyflogaeth parhaus. Roeddwn hefyd yn ymwybodol o'r sylwadau a wnaed gan aelod o Fwrdd URC sy'n gadael, Amanda Blanc, a adroddwyd yn y wasg ac yn gyhoeddus. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r honiadau eraill a amlygwyd yn y rhaglen ddogfen ac ni wnaed unrhyw honiadau neu gwynion ffurfiol eraill i Lywodraeth Cymru, heblaw am honiadau amhenodol a dienw a godwyd gan Tonia Antoniazzi AS gyda mi yn uniongyrchol a'i sylwadau a wnaed yn Senedd y DU.

**A allwch chi amlinellu unrhyw bŵer a allai fod gennych i gyfyngu cyllid, gan gynnwys unrhyw nawdd gan Lywodraeth Cymru, i gorff llywodraethu cenedlaethol lle mae gennych bryderon difrifol am weithgarwch yr honnir iddo ddigwydd, yn enwedig pan fo'r pryderon hynny hefyd wedi'u codi gyda chi mewn gohebiaeth ffurfiol?**

Mae disgwyl y bydd sefydliadau sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Chwaraeon Cymru yn bodloni egwyddorion ei Fframwaith Gallu. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar feysydd llywodraethu allweddol ac mae'n hoelio sylw ar bwysigrwydd ymddygiadau, moeseg ac uniondeb o fewn sefydliad. Mae'n bosibl y bydd Chwaraeon Cymru yn tynnu cyllid yn ôl wrth sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Fframwaith, neu'n cwtogi'r cyllid hwnnw. Mae dolen i'r Fframwaith Gallu yma.

Yn dilyn asesiad yn erbyn Fframwaith Gallu Chwaraeon Cymru a oedd wedi amlygu meysydd i'w gwella yn URC y llynedd, roeddwn yn ymwybodol bod URC wedi cael ei ysgogi i gynnal adolygiad o'i ddull llywodraethu haf diwethaf er mwyn mynd i'r afael â materion pwysig, megis cyfansoddiad ei Fwrdd. Nid wyf wedi cael golwg ar yr asesiad hwn na'r adolygiad llywodraethu ond nid oeddent yn nodi gradd y materion a drafodwyd gan BBC Investigates. Rydw i'n ymwybodol bod archwiliad diweddar gan Deloitte i ddulliau cydymffurfio partneriaid Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei Fframwaith Gallu, wedi cael sgôr 'sicrwydd sylweddol', ond byddaf yn trafod gyda Chwaraeon Cymru sut y gellid edrych ar ychwanegiadau neu welliannau pellach i sicrhau bod y broses a'r oruchwyliaeth mor gadarn â phosibl.

**A allech roi dadansoddiad inni, mewn trefn gronolegol, o ran pryd y codwyd materion gyda chi, ac unrhyw gamau a gymerwyd a phryd, gan gynnwys pob cyfarfod gydag URC? Byddem yn ddiolchgar pe gallai hyn gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfarfod pan ganiatawyd i'ch swyddog ddarllen copi o'r Adolygiad Rygbi Menywod am ugain munud, a pha gamau a ddeilliodd o hyn.**

Mae'n bwysig ailadrodd unwaith eto mai drwy raglen BBC Wales Investigates ar 23 Ionawr oedd y tro cyntaf imi, neu fy swyddogion, fod yn ymwybodol o raddfa a manylion y materion a godwyd ac enw'r unigolyn dan sylw. Roeddwn yn ymwybodol o'r materion a oedd yn gyhoeddus (fel y nodwyd uchod, yr achos Wathan sy'n parhau a sylwadau Amanda Blanc) ond nid oeddwn yn gwybod am unrhyw honiadau manwl, heblaw am yr honiadau amhenodol a dienw a drafodwyd gan Tonia Antoniazzi AS gyda fi ac sydd yn gyhoeddus.

Mae'r tabl yn Atodiad A yn nodi'r wybodaeth y byddwch yn gofyn amdani, gan gynnwys sawl mater yn ymwneud â gemau a dull llywodraethu'r merched yn URC a oedd eisoes yn wybodaeth gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'r cyfarfodydd a gefais gydag URC ers 23 Ionawr.

Er cyflawnder, anfonwyd dau e-bost ychwanegol gan Tonia Antoniazzi AS i'm cyfeiriad etholaethol ar yr un pwnc a oedd yn rhan o'n trafodaethau anffurfiol parhaus ar y pryd.

Dylai'r Pwyllgor nodi, ochr yn ochr â'r cyfarfodydd ffurfiol hyn, fod trafodaethau anffurfiol eraill wedi'u cynnal rhwng URC a minnau / swyddogion wrth fynychu digwyddiadau (e.e.

Cwpan y Byd Merched yn Seland Newydd) am ddatblygiad gêm y merched, buddsoddiad yn ei datblygiad, polisi trawsryweddol, a llywodraethu (cadeirydd annibynnol, cyfansoddiad y Bwrdd etc).

Dylai'r Pwyllgor nodi hefyd, yn ystod y cyfnod yr oedd y materion hyn yn gyhoeddus:

- Dim ond un cyfathrebiad ffurfiol cefais ar y mater oddi wrth Tonia Antoniazzi AS ym mis Mai 2022.
- Nid oedd unrhyw gwestiynau llafar, cwestiynau ysgrifenedig na gohebiaeth ar y materion wedi'u cyflwyno imi gan unrhyw Aelodau o'r Senedd.
- Ni ofynnwyd imi wneud unrhyw ddatganiad ar y materion gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn ystod Cwestiynau Busnes.
- Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau llafar ar y materion ar gyfer y Prif Weinidog.
- Ni ysgrifennodd unrhyw ASau (heblaw'r un oddi wrth Tonia Antoniazzi) ataf ynghylch y materion.
- Ni ysgrifennodd clybiau rygbi, rhanbarthau rygbi nac aelodau'r cyhoedd ataf ynghylch y materion.
- Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i mi nac URC gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, nac ychwaith, hyd y gwn i, fod unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ynglŷn â'r holl faterion a oedd yn gyhoeddus cyn rhaglen BBC Investigates ar 23 Ionawr 2023.

**Byddem yn croesawu copïau o'r ohebiaeth a gawsoch gan Tonia Antoniazzi AS mewn perthynas â'r mater hwn, ac unrhyw ymateb ffurfiol a anfonwyd. A allech hefyd amlinellu pa gyngor a roddwyd ichi gan swyddogion pan gawsoch yr ohebiaeth hon?**

Mae copi o'r e-bost a gefais gan Tonia Antoniazzi AS ynghlwm fel Atodiad B i'r llythyr hwn, ynghyd â'm hymateb.


Roedd y cyngor gan fy swyddogion yn nodi'r pwyntiau allweddol yn yr e-bost, a oedd yn bryderon am ddiwylliant o rywiaeth o fewn y sefydliad a strwythurau llywodraethu hynafiaethol oedd yn atal atebolrwydd y Corff Anllywodraethol. Roedd y cyngor hefyd yn nodi nad oedd unrhyw honiadau penodol wedi'u gwneud yn yr ohebiaeth, a bod achos o wahaniaethu ar sail rhyw yn parhau drwy dribiwnlys cyflogaeth oedd fod i'w gynnal yn hydref 2022.

Yn olaf, fel bod cofnod, hoffwn ychwanegu eglurhad i un o'm hatebion a roddwyd yn y sesiwn dystiolaeth. Ar ôl adolygu'r trawsgrifiad, sylweddolaf nad oeddwn wedi ateb y cwestiwn a ofynnwyd gennych yn llawn.

Ym mharagraff 274, gofynnoch "a allech gadarnhau Weinidog, a gawsoch unrhyw gysylltiad ag Amanda Blanc cyn iddi ymddiswyddo ynghylch y materion hyn?" Yn y paragraff dilynol, atebais "Na".

Roedd yn gywir dweud nad oeddwn yn siarad ag Amanda Blanc am unrhyw un o'r materion hyn, ond er mwyn bod yn gyflawn, hoffwn ychwanegu eglurhad pellach. Yn dilyn sgwrs gyda Tonia Antoniazzi AS, gwnes i geisio siarad â Ms Blanc yn Ebrill 2022, ond methais â'i chyrraedd. Gadewais neges yn egluro cyfyngiadau unrhyw drafodaeth gyda hi oni bai bod ei chysylltiad yn cael ei wneud yn ffurfiol. Ymatebodd gyda neges i gynghori nad oedd am fanteisio ar y cynnig o sgwrs. Ni chefais unrhyw gysylltiad pellach â hi.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

**Atodiad A**

| Dyddiad | MATER |
|---|---|
| 25/11/2021 | Cyhoeddodd Amanda Blanc ei phenderfyniad i ymddiswyddo o fwrdd URC, ac fel cadeirydd y Bwrdd Rygbi Proffesiynol. Ni roddwyd unrhyw resymau dros ei hymddiswyddiad. |
| 16/12/2021 | Cwrddais â chyn-Brif Weithredwr URC, Cyfarwyddwr Cymunedol URC, Cyfarwyddwr Perfformiad URC a chapten Tîm Cenedlaethol y Menywod i drafod rygbi merched yng Nghymru, yr adroddiad ar brofiad diwrnod gêm yn dilyn Gemau Rhyngwladol Hydref 2021 a'r benthyciad CLBILS. |
| 02/02/2022 | Cwrddais â chyn-Brif Weithredwr URC i drafod y profiad diwrnod gêm cyn Pencampwriaeth y Chwe Gwlad 2022, y benthyciad CLBILS arfaethedig a materion teithio yn ymwneud â gemau yn Ne Affrica. |
| 03/03/2022 | Cododd Tonia Antoniazzi AS adroddiad URC ar gêm y merched yn ystod dadl Gŵyl Dewi yn Nhŷ'r Cyffredin, a galwodd iddo gael ei gyhoeddi. |
| 24/03/2022 | Cyhoeddodd y Daily Mail erthygl yn cyfeirio at honiadau o rywiaeth a chasineb at fenywod, ac at Dribiwnlys Cyflogaeth sy'n parhau. Caiff y stori ei chodi y diwrnod canlynol gan y Western Mail.<br><br>https://www.dailymail.co.uk/sport/sportsnews/article-10645119/Welsh-Rugby-Union-turmoil-rape-joke-Hitler-jibe-amid-claims-misogyny-sexism.html |
| 29/03/2022 | Cwrddais â Tonia Antoniazzi i drafod ystod o faterion yn ymwneud â'r benthyciad yr oeddem wedi cytuno arno ag URC, y cynnydd yng ngêm/adroddiad y merched a'r gwelliannau sydd eu hangen o hyd a'r canllawiau trawsryweddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y cynghorau chwaraeon ledled y DU a'r materion posibl a wynebodd rygbi yn sgil hynny. |
| 30/03/2022 | Cwrddais â chyn-Brif Weithredwr URC i drafod benthyciad CLBILS, gêm/adroddiad y merched, yr ymgynghoriad ar rygbi cymysg ac adolygiad o'r profiad diwrnod gêm yn dilyn casgliad Pencampwriaeth y Chwe Gwlad 2022. |
| 17/04/2022 | Fe wnaeth cyn-Brif Weithredwr URC ymateb i'r honiadau gafodd eu codi yn erthygl y Daily Mail.<br><br>https://www.bbc.co.uk/sport/rugby-union/61126215 |
| 29/04/2022 | Cafodd fy swyddog gopi papur o'r adroddiad ar gêm y merched am tua 20 munud wrth fynychu cyfarfod gyda'r cyn-Brif Weithredwr yn Stadiwm Principality. Gan gydnabod nad oedd digon o amser i ddarllen yr adroddiad yn llawn, ei grynodeb o'r adroddiad oedd bod prif ffocws yr adroddiad a'i argymhellion ar y rheolwyr ac ochr chwarae rygbi merched ac nad oedd yn ymwneud â materion diwylliannol mwy cyffredinol yn URC. |

| | |
|---|---|
| 09/05/2022 | Cefais ohebiaeth ffurfiol gan Tonia Antoniazzi AS, a fynegodd yn gyffredinol, ei phryderon am achosion hirsefydlog o rywiaeth a chasineb at fenywod yn URC, a model llywodraethu sydd wedi dyddio a oedd yn llesteirio atebolrwydd. Cafodd dau e-bost oedd yn codi'r un mater eu hanfon at fy nghyfeiriad etholaethol ac ni ymatebwyd iddynt gan fy mod yn ymateb yn llawn i'r ohebiaeth ffurfiol. |
| 28/05/2022 | Ymatebais i Tonia Antoniazzi AS drwy lythyr yn rhoi gwybod iddi nad oeddwn wedi derbyn manylion penodol am unrhyw achosion ac y dylai unrhyw unigolyn neu grwpiau sy'n dymuno codi cwynion neu bryderon ddilyn prosesau cwyno neu chwythu chwiban y sefydliad yn y lle cyntaf, cyn penderfynu a ddylid uwchgyfeirio materion ymhellach ai peidio. |
| 15/06/2022 | Ehangodd Amanda Blanc ar ei phenderfyniad i ymddiswyddo o fwrdd URC ac fel Cadeirydd y Bwrdd Rygbi Proffesiynol, gan ddweud nad oedd neb yn gwrando arni a bod angen moderneiddio dull llywodraethu URC. |
| 13/12/2022 | Dywed y BBC fod URC a chyn-reolwr cyffredinol rygbi menywod, Charlotte Wathan, wedi dod i "benderfyniad cyfeillgar" ynglŷn â honiadau o wahaniaethu rhywiol, gan arwain at dynnu'r achos tribiwnlys cyflogaeth yn ôl. |
| 11/01/2023 | Cwrddais â cyn-Brif Weithredwr a Chadeirydd URC a etholwyd yn ddiweddar am drafodaeth eang ar faterion megis y dull llywodraethu a'r adolygiad, cyllid, profiad diwrnod gêm, polisi trawsryweddol URC, model buddsoddi Chwaraeon Cymru, buddsoddi mewn rygbi merched, ac ailbrisiad Ardrethi Busnes. |

## Llythyr oddi wrth Tonia Antoniazzi AS

DB0027722_Incoming_0.msg

## Ymateb i Lythyr Tonia Antoniazzi AS

DB0027722_Outgoing_0.pdf

Dear Dawn,

I am writing to you formally, in your capacity as the Minister for Sport to raise grave concerns I have about the Welsh Rugby Union. There is a deep seated culture of sexism within the WRU which I am afraid will soon become public and that will paint the Welsh Government and those that fund the WRU such as the sponsors and Sport Wales in a negative light. I am concerned that the WRU are not held to account for their behaviour and for their actions as their governance system is archaic and this has resulted in problems within the institution not being dealt with properly and transparently. We have seen this in the review of women's rugby which was completed last year. This document has not been published and there has not been an apology to women who have played and that are playing currently for the way in which they have failed to be the custodians of the game that they had set out to do when they took over the management of the women's game.

My concerns are reflected in the resignation of Amanda Blanc from the WRU Executive Board, after only seeing out 2 of her 6 year tenure. Amanda is the current CEO of Aviva and one of the United Kingdom's high achieving women. Concerns also have been raised anonymously in the media, you may have seen the report in the Daily Mail in March regarding a sex discrimination case which is to be brought in front of a judge in the early autumn. These are only two of a number of cases that have been brought to my attention. I have been unable to speak to and contact the other women myself, but I am very aware of someone in the media having built a comprehensive list of women who are all prepared to go public. From within the WRU, I have spoken to 3 people who have shared my concerns and more concerningly confirmed what I already knew about the organisation.

This is not just a case of one or two people having a spat with the WRU, this is a huge problem on the scale of racism in Yorkshire cricket. I am asking you to speak to these individuals in confidence in order to collaborate the concerns I have raised in this email. As an ambassador of a local girls hub, I have a duty as their MP to ensure that the mistakes of the past and present do not hinder the future careers of women and girls in rugby, and that they are safe to work in the world of rugby and play the sport that they love.

I look forward to hearing from you soon,

Best wishes
Tonia

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/00277/22
Tonia Antoniazzi MP
Member of Parliament for Gower

tonia.antoniazzi.mp@parliament.uk

24 May 2022

Dear Tonia

Thank you for your correspondence dated 9 May 2022 raising a number of concerns regarding the Welsh Rugby Union.

There have been recent positive developments in the women's game in Wales to address longstanding issues. However, I am very clear that this is only the beginning of the journey. The WRU still has much to do and I expect them to continue to build on this progress leading to this year's World Cup and beyond. It will be an area I will continue to press for improvements in my discussions with the Chief Executive, and others.

My understanding is the foundation for many of these recent changes we have seen in the women's game have been driven by the review undertaken last year. Whilst I have not seen the report directly, I recognise the concerns raised about the report not being made public and I have engaged with the WRU to understand their approach. It is my understanding that it was always intended to be an internal report to allow consultees and the authors the freedom to be candid in their views of the issues and the changes needed in the women's game. A public-facing report may not have reached the same conclusions and to release the report now may betray the confidences of those involved. However, in moving the game forward, it is critical that the WRU demonstrates that the approach it is taking is being developed with players and stakeholders and that their actions reflect that partnership working.

Whilst I am unable to comment on an ongoing employment tribunal, we should be very clear that any individual or groups wishing to raise complaints or concerns should follow the organisation's complaints or whistleblowing processes in the first instance, before deciding whether or not to escalate matters further.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I have not received any direct representations on any such concerns you highlight.

Yours sincerely

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip